TGAU

# HANES

## Uned 2 Asesiad Di-arholiad ar sgrin

CWESTIYNAU CYFFREDIN



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

**1. Beth yw e-asesu/asesu ar-sgrin?**

Mae e-asesu/asesu ar-sgrin yn cynnwys defnyddio TGCh; gan ganiatáu i arholiadau neu asesiadau di-arholiad gael eu sefyll a'u marcio ar sgrin, a chael gwared ar yr angen am bapur a beiro.

**2. Pa unedau fydd yn cael eu cyflwyno drwy asesiad ar-sgrin ar gyfer TGAU Hanes?**

Ar gyfer ein cymhwyster TGAU Hanes newydd (i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2026), bydd Asesiad Di-arholiad Uned 2 yn cael ei gyflwyno ar-sgrin.

**3. Pam rydym yn cyflwyno'r newid hwn?**

Fel rhan o'u hamodau rheoleiddiol, mae Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyfran o'r holl gymwysterau TGAU Dyniaethau gael eu hasesu ar-sgrin o fewn y pum mlynedd gyntaf o addysgu.

Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, rydym wedi penderfynu cyflwyno hyn i asesiad di-arholiad Uned 2 yn TGAU Hanes o ddechrau'r cymhwyster newydd, gan ein bod yn teimlo y byddai asesiad ar-sgrin o fudd i'r Uned benodol hon. Sylwer, dim ond i'r fanyleb newydd y mae hyn yn berthnasol.

**4. Pryd fydd yr asesiad ar-sgrin cyntaf ar gyfer Asesiad Di-arholiad Uned 2?**

Bydd y cyfnod asesu cyntaf yn digwydd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2027.

**5. Sut fydd yr asesiad di-arholiad yn cael ei gyflwyno ar-sgrin?**

Bydd canolfannau'n cael cyfnod o 12 wythnos i gyflwyno'r asesiad 3 awr. Gellir cwblhau'r asesiad mewn un sesiwn, neu mewn sawl sesiwn fyrrach. Bydd canllawiau pellach yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**6. A fydd dysgwyr yn cael cyfle i ymarfer e-asesiadau?**

Bydd deunyddiau asesu enghreifftiol e-asesu ar gael ar ein platfform Surpass, o fis Rhagfyr 2024. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr, ac ysgolion/colegau, i ymgyfarwyddo â'n hasesiadau ar-sgrin. Yn ogystal, bydd asesiadau'r gorffennol hefyd ar gael yn dilyn pob cyfres arholiadau.

**7. A yw e-asesiadau'n hygyrch i bob dysgwr?**

Cafodd hygyrchedd yr e-asesu i ddysgwyr ei ystyried fel rhan o'r gwaith o'u cynllunio. Bydd pob dysgwr yn gallu cael mynediad i'n e-asesiadau heb drefniadau arbennig. Fodd bynnag, lle mae angen fersiynau hygyrch, dyfeisir ein hasesiadau i weithio gydag amrywiaeth o dechnolegau mynediad a threfniadau mynediad cyffredin

**8. Pa gefnogaeth/arweiniad fydd CBAC yn ei gynnig wrth gyflwyno e-asesiadau?**

Mae gennym dros 15 mlynedd o brofiad o ddatblygu a chyflwyno e-asesiadau ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol. Mae ein tîm e-asesu arbenigol yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr rhad ac am ddim i alluogi ysgolion/colegau i gyflwyno'r asesiadau hyn yn hyderus.

**9. Sut alla i gyflwyno e-asesiad o fewn fy ysgol/coleg?**

I gyflwyno e-asesiad yn eich ysgol/coleg, cysylltwch â'n Tîm E-asesu drwy e-assessment@wjec.co.uk.